

Pwy bynnag ydych chi, beth bynnag sydd ei angen

Trosolwg 2024
Cymorth Canser Macmillan

Sut oedd bywyd yn edrych i bobl oedd yn byw gyda chanser yn 2024?

Mae Nathaniel, athro cerdd ysgol gynradd poblogaidd, wedi bod yn byw gyda chanser y coluddyn anwelladwy ers 2022.

Dyma ei stori yn ei eiriau ei hun:

//

Pan ddaeth bywyd yn gwbl ansicr yn sydyn, roedd yr holl wybodaeth y gallwn fod ei heisiau ar flaenau fy mysedd. Beth allwn i ddisgwyl o driniaeth? A allwn i fynd i'r gwaith o hyd? Sut gallwn i fynd ati i ddweud wrth fy ffrindiau a fy nheulu? Siaradodd nyrs Macmillan ar y Llinell Gymorth â mi drwy'r opsiynau mewn iaith glir. A chyn gynted ag y cefais fy natgan yn 'derfynol' roedd cynghorydd budd-daliadau wrth law i helpu gyda'r gwaith papur, a derbyniais fy nhaliad PIP cyntaf cyn pen pythefnos. Wnes i ddim sylweddoli cymaint o rwyd diogelwch a synnwyr o sicrwydd a gefais o'r dasg weinyddol syml hon cyn i hyn ddod i law. Oni bai am Macmillan, ni fyddwn hyd yn oed yn gwybod fy mod yn gymwys.

Cefnogodd Macmillan fi i gael fy mhen o gwmpas sut beth yw bod yn ddyn sy'n marw ond yn dal i orfod wynebu arosiadau hir am driniaethau'r GIG. Ar ddiwedd 2022, roeddwn ar restr aros 18 mis am gwnsela a darparodd Macmillan ddwsin o sesiynau wythnosol lle'r oeddwn yn gallu prosesu'r hyn oedd yn digwydd i mi wrth i fy myd gael ei droi wyneb i waered.

Er fy mod yn herfeiddiol obeithiol, dywedwyd wrthyf yn ddiweddar fy mod yn fy mlwyddyn olaf o fywyd. Mae'n rhyfedd i rywun a fydd



yn gwneud yn dda i gyrraedd ei ben-blwydd yn 40 oed deimlo, ond rydw i wedi bod yn ffodus iawn i allu gwneud cryn dipyn o fyw ar ôl diagnosis. Mae hyn wedi cynnwys nifer o anturiaethau sydd wedi arwain at ymgyrch codi arian i Macmillan sy'n prysur agosáu at £40,000. Er bod ymchwil o amgylch canser yn hanfodol bwysig ac rwy'n byw mewn gobaith y gall mwy a mwy o bobl osgoi bod mewn sefyllfa fel fi, Macmillan sydd wir yno i bobl sy'n byw gyda chanser a'u hanwyliaid. Dyma pam yr wyf y tu hwnt i *falch* i gefnogi'r elusen wych hon. Diolch, tîm Macmillan, am bopeth a wnewch. //

Cipolwg ar 2024

Yn 2024 roeddem yno i filiynau o bobl yr effeithir arnynt gan ganser. Dim ond e-bost, neges neu alwad ffôn i ffwrdd oedd ein nysys a'n cyngorwyr. Bu ein Gweithwyr Proffesiynol Macmillan yn gweithio ar wardiau ac mewn clinigau ledled y Deyrnas Unedig. Roedd ein Cymuned Ar-lein yn weithgar 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae Macmillan yma i bawb sydd â chanser yn y Deyrnas Unedig. Ac mae 2024 yn dangos na fydd ein hymrwymiad i hynny byth yn newid.




£150.4 miliwn

Gwnaethom wario £150.4 miliwn ar gefnogi pobl sy'n byw gyda chanser ac yr effeithir arnynt gan ganser.

Rhoddodd 89% o'r bobl a gafodd gefnogaeth gan Macmillan sgôr gadarnhaol iawn i ni, gyda 73% yn rhoi sgôr o 10 allan o 10 i'n cefnogaeth.

10



£239.7 miliwn

Codwyd £239.7 miliwn diolch i haelioni ein cefnogwyr anhygoel – roedd hyn yn 98% o gyfanswm ein hincwm.



2.4 miliwn

Cyrhaeddodd gyfanswm o 2.4 miliwn o bobl yr effeithir arnynt gan ganser ledled y Deyrnas Unedig yn 2024.

Fe wnaethom barhau i gynyddu faint o wybodaeth canser a ddarparwn mewn fformatau hygyrch, ac yn 2024 gwelsom:

Gwybodaeth am Ganser

- Mwy na 14,000 o lawrlwythiadau ac archebion o'n gwybodaeth hawdd ei darllen am ganser.
- Mwy na 11,000 o lawrlwythiadau o'n gwybodaeth wedi'i chyfieithu.
- Mwy na 2,200 o wrandawiadau i'n llyfr llafar gwybodaeth canser.



65,000 o asesiadau

Fe wnaethom gefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gyflwyno un neu fwy o asesiadau anghenion cyffwrdd electronig i fwy na 65,000 o bobl â chanser, sef cynnydd o 11% o 2023. Mae eHNA yn helpu nodi beth sydd ei angen ar rywun sy'n byw gyda chanser yn ystod eu taith canser ac os oes angen bydd yn cael ei ddilyn gan gynllun gofal sy'n nodi pa gymorth a roddir ar waith i ddiwallu'r anghenion hyn.



484,000 wedi eu cefnogi

Fe wnaethom gefnogi 484,000 o bobl sy'n byw gyda chanser gyda gwybodaeth a chefnogaeth

am eu diagnosis, triniaeth a gofal, trwy ein Llinell Gymorth dros y ffôn, canolfannau gwybodaeth, Cymuned Ar-lein, gwefan, cefnogaeth e-bost a gwasanaeth Cyfeillion ffôn – mae hyn yn gynydd o 21% o gymharu â 2023 (401,000).

Mae hyn yn cynnwys mwy na chwarter miliwn o bobl â chanser (286,000) a ddaeth o hyd i gymorth drwy ein Cymuned Ar-lein, sy'n fwy na dwbl yr un nifer ag yn 2023 (138,000 o bobl â chanser).



Mae hefyd yn cynnwys mwy na 105,000 o bobl â chanser a ymwelodd ag un o'n canolfannau gwybodaeth Macmillan mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ledled y Deyrnas Unedig, sy'n gynydd o 9% o gymharu â 2023 (97,000 o bobl â chanser).

Dal ati!



11,000 o wirfoddolwyr

Rhoddodd ein cymuned wych o fwy na 11,000 o wirfoddolwyr fwy na 100,000 o oriau o'u hamser.

Sut wnaethom gasglu ein harian

Dim ond diolch i'r rhai sy'n ein cefnogi y mae ein cenhadaeth i wneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pobl sy'n byw gyda chanser yn bosibl.

Yn 2024, daeth 98% o'n hincwm o'r cannoedd o filoedd o bobl ledled y Deyrnas Unedig a roddodd arian i gefnogi'r gwaith hanfodol rydym yn ei wneud ar gyfer pobl sy'n byw gyda chanser yn y Deyrnas Unedig.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn effaith chwyddiant cynyddol a'r argyfwng costau byw yn ogystal â'r newid yn y dirwedd codi arian o ganlyniad i bandemig COVID-19, mae wedi dod yn anoddach i Macmillan, ac elusennau eraill fel ni, gynnal yr un lefel o incwm ag oedd gennym mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, diolch i ymroddiad parhaus ein cefnogwyr a gynhaliodd Foreau Coffi, teithiau cerdded, rhedeg neu addo rhodd yn eu hewyllys yn hael, ochr yn ochr â'n partneriaid corfforaethol a barhaodd i annog eu timau a'u cwsmeriaid i godi arian hanfodol, mae ein hincwm wedi adfer ei hun i lefelau cyn-COVID.



£243.9 miliwn

Codwyd £243.9 miliwn gennym yn 2024 gan ein cefnogwyr anhygoel, incwm grant ac incwm o weithgareddau elusennol.

Roedd ein portffolio codi arian digwyddiadau her sy'n cynnwys digwyddiadau fel ein cyfres boblogaidd Mighty Hikes wedi rhagori ar £30 miliwn am y tro cyntaf yn ei hanes, gan gyflawni £31.2 miliwn.



Sut y gwariwyd ein harian

Roedd 2024 yn flwyddyn drawsnewidiol i Macmillan, a welodd ddatblygiad ein strategaeth newydd, newidiadau i'r ffordd rydym yn gweithio ac ail-lunio'r sefydliad i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf ar bobl â chanser. Ar yr un pryd, fe wnaethom ailosod gwariant i sicrhau sefyllfa ariannol hirdymor sefydlog yng nghyd-destun amgylchedd allanol heriol.

Ein prif flaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod yr arian a godwn yn cael cymaint o effaith â phosibl ar bobl sy'n byw gyda chanser.

Fel rhan o'n strategaeth newydd, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein nyrsys Macmillan a'n gweithwyr proffesiynol, ein gwasanaethau blaenllaw, gwybodaeth a chymorth, yn ogystal â datblygu'r dulliau o ddarparu hyn, fel y gall mwy o bobl ledled y Deyrnas Unedig gael yr help y mae dirfawr ei angen arnynt.

Byddwn yn sicrhau bod rhoddion yn cael effaith barhaol ar gyfer y dyfodol yn ogystal â helpu pobl ar hyn o bryd gyda'u pryderon am ganser.



£106 miliwn

Yn 2024, cawsom roddion gan 2,939 o bobl a ddewisodd yn garedig i Macmillan fod yn rhan o'u hetifeddiaeth, gan arwain at y cyfanswm mwyaf erioed o £106 miliwn a roddwyd i Macmillan drwy roddion mewn ewyllysiau y llynedd.

£17.1 miliwn

Cododd ein digwyddiad codi arian blaenllaw, Bore Coffi Macmillan, £17.1 miliwn yn 2024, cynnydd o £16.8 miliwn yn 2023.



£150.4 miliwn

Fe wnaethom wario cyfanswm o £150.4 miliwn ar weithgareddau elusennol yn 2024. Mae hyn yn cynnwys:



Gwario £38.0 miliwn ar ddarparu gwybodaeth a chymorth hanfodol, i helpu pobl i wneud penderfyniadau pwysig am eu triniaeth a'u gofal.



Ariannu a chefnogi ystod o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol gwerth cyfanswm o £31.4 miliwn.



Bob amser yno am beth bynnag sydd ei angen arnoch: Llinell Gymorth Macmillan

"Dechreuais hyfforddi fel nyrs yn 1984 gan weithio ar wardiau amrywiol a arweiniodd at ddatblygu diddordeb arbennig mewn gofal cancer. Gweithiais fel nyrs yn y GIG am 38 mlynedd gan gynnwys cefnogi cleifion cancer y brostad am 11 mlynedd ac yna fy rôl fel Arbenigwr Cancer Colorectol/Nyrs Stoma Macmillan. Ymunais â Llinell Gymorth Macmillan yn 2022.

Rydw i'n un o tua 70 o nyrsys sy'n gweithio ar y Llinell Gymorth. Mae gan bawb brofiad helaeth a chyfoeth enfawr o wybodaeth rydyn ni'n eu defnyddio i gefnogi'r rhai sy'n cysylltu â ni, am ba bynnag gwestiynau sydd ganddyn nhw neu gefnogaeth sydd ei angen arnyn nhw yn y foment honno.

Mae Llinell Gymorth Macmillan yno i bobl â chanser a'u hanwyliaid dros y ffôn, gwe-sgwrs, e-byst a'n fforwm 'Gofyn i Nyrs' Cymunedol Ar-lein. Rydym yn darparu pa gymorth bynnag sydd ei angen ar bobl: o'u grymuso â gwybodaeth, rhannu arweiniad clir a chyfeirio at adnoddau pellach, neu eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd, i ddarparu cefnogaeth emosiynol a bod yn glust i wrando pan fyddant ei angen fwyaf. Mae pob cyswllt yn gwbl unigryw, ac rydym yn teilwra ein gwybodaeth a'n cefnogaeth yn ôl yr angen ar bob person.

Mae Llinell Gymorth Macmillan ar agor 365 diwrnod y flwyddyn, 8am i 8pm. Mae'n ofod diogel, cyfrinachol gydag arbenigwr ar ddiwedd y llinell sy'n gallu darparu cefnogaeth, clust i wrando a chymorth mewn unrhyw ffordd y gall. Yn ogystal â'n tîm o nyrsys, mae gan Llinell Gymorth Macmillan hefyd gynghorwyr gwybodaeth cancer a chynghorwyr ariannol sy'n darparu cymorth hanfodol ychwanegol.

Mae gallu gwybod y gallwn gefnogi rhywun o bell, er ein bod yn ddieithriad, yn rhoi boddhad mawr ac yn rhoi boddhad swydd gwych. Rwyf wedi caru fy holl nyrsio, a gallaf ddweud yn ddifffuant ei bod yn ffrainc cael cyflawni fy rôl bresennol fel Nyrs Arbenigol Gwybodaeth Cancer Macmillan a gallu helpu cefnogi pobl â chanser a'u hanwyliaid bob dydd."



**Mae Tricia Timms yn Nyrs
Arbenigol Gwybodaeth Cancer
ar Llinell Gymorth Macmillan.**

Hwyluso cymuned a chefnogaeth rhwng cyfoedion trwy ein Cymuned Ar-lein

Mae ein Cymuned Ar-lein yn fforwm cancer ar-lein ar gyfer pobl â chanser, yn ogystal â'u hanwyliaid a'u gofalwyr. Mae'n wasanaeth hanfodol lle gall pobl gysylltu ag eraill, rhannu eu profiadau a darparu cefnogaeth i eraill ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, 365 diwrnod y flwyddyn.

Yn 2024, cafodd mwy na chwarter miliwn o bobl â chanser (286,000) gymorth drwy ein Cymuned Ar-lein, sy'n fwy na dwbl yr un nifer ag yn 2023 (138,000 o bobl â chanser).

Dyma sut mae'r gymuned wedi cefnogi pobl fel Brian:



"Awgrymodd fy Nyrs Macmillan hyfryd, tra'n rhoi fy mhigiad hormon cyntaf i mi, fy mod yn ymuno â'r Gymuned Ar-lein am gefnogaeth. Er nad wyf yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ymunais. Roedd aelodau fforwm cancer y prostad yn griw gwych ac yn fuan roedd gen i griw o ffrindiau. Yn fforwm cancer y Prostad, rydym yn gwybod pryd i fod o ddifrif a phryd i gael hwyl. Rydyn ni i gyd yn ymgynnull i helpu a chefnogi aelodau newydd a gweithredol yn rheolaidd.

Mae pobl yn aml yn gofyn i mi sut rydw i wedi llwyddo i ddod trwy dair blynedd ar therapi hormonau gyda'r holl sgîl-efeithiau. Mae'r ateb yn syml - dwi bob amser yn edrych ar yr ochr orau o bethau. Mae wedi bod yn dair blynedd anodd ond mae chwerthin (yn aml arnaf fy hun), wedi ei gwneud hi'n haws ymdopi. I mi, dwi'n credu mai gwên, chwerthiniaid, ac agwedd bositif yw hanner y frwydr.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Gymuned yn fforwm cancer y Prostad ac i'r rhai yr wyf wedi cyfarfod â hwy ar fforymau eraill am fy helpu ar fy nhaith fy hun. Mae pawb sy'n cyfrannu yn gwneud Cymuned Ar-lein Macmillan yn llwyddiant."

Brian

Gweithio gyda llywodraethau i drawsnewid gofal cancer

Yn Macmillan rydym yn gwybod bod gofal cancer wedi arwain y ffordd o'r blaen o ran newid y system gofal iechyd er gwell. Rydym wedi llywio'r gwaith o greu rolau Nyrsys Cancer Arbenigol. Rydym wedi datblygu offer arloesol fel Asesiadau Anghenion Cyfannol electronig a ffyrdd newydd o fesur barn pobl â chanser am y gofal y maent yn ei dderbyn.

Gyda'n gilydd, gyda gwleidyddion a'n partneriaid, rydym yn gweithio i drawsnewid gofal cancer unwaith eto, er mwyn sicrhau dyfodol mwy gobeithiol i bobl â chanser a'u hanwyliaid.

Yn **Lloegr**, gwahoddodd Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig ni i fod yn aelod o'u Grŵp Cyfeirio Arbenigol gan helpu llunio adroddiad Darzi – adolygiad corwynt a gynigiodd asesiad amrwd a gonest o berfformiad y GIG yn Lloegr i helpu llywio Cynllun 10 Mlynedd ar gyfer lechyd newydd.

Fe wnaethon ni alw am i ofal cancer drin pawb yn gyfartal. Fe wnaethon ni alw am i ofal cancer gael ei lywio gan brofiadau bywyd pobl â chanser a'i bersonoli i ddiwallu anghenion unigol pobl. Ac fe wnaethon ni alw am i ofal cancer gael ei arwain gan weithlu a ddarperir â'r sgiliau, y gallu a'r adnoddau cywir i wneud y gwaith.



Lansiad Clymblaid Elusennau Cancer Gogledd Iwerddon yn Stormont ym mis Mehefin 2024, gyda'r Prif Weinidog, Michelle O'Neill, y Dirprwy Brif Weinidog, Emma Little-Pengelly a'r Gweinidog Iechyd, Mike Nesbitt yn bresennol.

Yn yr **Alban**, gwnaethom barhau â'n hymgyrch barhaus i wella amseroedd aros am driniaeth cancer. Wrth siarad â Phwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban, fe wnaethom amlinellu sut nad oedd un o'r targedau amseroedd aros cancer presennol wedi'i fodloni ers 12 mlynedd. Fe wnaethom dynnu sylw at y pryder mae hyn yn ei achosi i bobl oherwydd oedi cyn cael diagnosis a thriniaeth.

Yng **Nghymru**, aethom â'n galwad am ofal personol i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd. Roedd ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar bwysigrwydd asesiadau cyfannol o anghenion – offeryn ar gyfer sicrhau bod pobl yn cael cynlluniau gofal wedi eu siapio i'w hanghenion unigol.

Ac yng **Ngogledd Iwerddon**, fe wnaethom helpu lansio Clymblaid Elusennau Cancer newydd. Gan ddechrau gyda chwe aelod sefydlu, mae'r glymblaid bellach yn cynnwys 36 o elusennau cancer. Mae'r grŵp yn ymroddedig i roi llais i bobl â chanser a dwyn Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i gyfrif am gyflawni ei strategaeth ganfer genedlaethol.

Llunio gofal i anghenion cymunedau ethnig amrywiol

Mae pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol yn aml yn adrodd am brofiadau cyffredinol gwaeth o'u gofal canser. Mae'n bosibl bod y cymunedau hyn yn wynebu bylchau o ran cymorth sy'n ddiwylliannol briodol, materion cymdeithasol fel amddifadedd, neu rwystrau ychwanegol fel tabŵs diwylliannol. Mewn partneriaeth â chymunedau lleol, rydym yn datblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol a all annog sgysiau mwy agored am ganser a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth diwylliannol priodol sydd ei angen arnynt fel nad oes neb â chanser yn cael ei adael ar ôl.

Dim ond un fenter leol newydd yw'r prosiect Cysylltwyr Cymunedol sy'n helpu mynd i'r afael â'r annhegwch sy'n bodoli mewn gofal canser. Gyda chymorth grant gan Macmillan, mae'r prosiect 2.5 mlynedd hwn yn cyflogi rheolwr a phum Cysylltydd Cymunedol newydd i leihau annhegwch iechyd, cynyddu dealltwriaeth pobl o ganser, a helpu gwella canlyniadau a phrofiadau pobl o ofal canser trwy eu helpu i gael y cymorth personol sydd ei angen arnynt.

Gan weithio ar draws Sandwell, yr Ardal Ddu a gorllewin Birmingham, mae'r prosiect yn dwyn ynghyd bartneriaeth a arweinir gan y gymuned rhwng Macmillan a Chymdeithas Islamaidd Bangladesh Smethwick, Cymdeithas Ddinesig Nishkam, Canolfan Adnoddau Affricanaidd Caribiaidd Gorllewin Bromwich, Cymdeithas Gymunedol Yemeniaidd yn Sandwell, a Bwrdd Gofal Integredig yr Ardal Ddu.



Lansio prosiect Cysylltwyr Cymunedol

Creu hyrwyddwyr cancer o fewn y gymuned LHDTC+ yng Ngogledd Iwerddon

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gymorth LHDTC+ penodol ar draws Gogledd Iwerddon o ran gofal cancer, ac mae'r gymuned yn wynebu heriau penodol. Mae diffyg cysondeb yn y ffordd mae systemau gofal iechyd yng Ngogledd Iwerddon (a ledled y Deyrnas Unedig) yn cofnodi cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd, sy'n golygu bod rhaglenni atal cancer a sgrinio wedi'u targedu ar gyfer y gymuned LHDTC+ yn anodd. Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu y gallai nifer y rhai sy'n cael sgrinio cancer fod yn is ymhlith rhai pobl sy'n LHDTC+ yn y Deyrnas Unedig, a all arwain at ddiagnosis o ganser yn hwyrach nag y dylid.

The Rainbow Project yw'r sefydliad LHDTCRhA+ cwbl gynhwysol mwyaf yng Ngogledd Iwerddon. Drwy weithio mewn partneriaeth â nhw, rydym yn gobeithio mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau gofal iechyd a wynebir gan bobl o'r gymuned LHDTC+ sy'n byw gyda chanser neu sydd wedi'u heffeithio ganddo.

Wedi'i lansio ym mis Awst 2024 fel rhan o'n menter Hyrwyddwyr Cancer, mae'r Rainbow Project wedi cyflogi chwe aelod o staff yn Belfast a Derry, sy'n darparu cymorth ledled Gogledd Iwerddon.

Mae'r tîm bellach yn canolbwyntio ar wella gwybodaeth pobl am ganser, nodi a lleihau rhwystrau i sgrinio a thriniaeth, ac annog pobl y mae cancer yn effeithio arnynt i rannu eu straeon yn eu geiriau eu hunain er mwyn helpu gwella darpariaeth gwasanaethau lleol i eraill. Byddant hefyd yn ymgysylltu â darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau sgrinio i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n wynebu'r gymuned LHDTC+, trwy ddarparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chyfeiriadedd Rhywiol.



Cafodd Fiona ddiagnosis o ganser y thyroid prin yn 2016, ac mae bellach yn gwirfoddoli i'r Rainbow Project a'r Panel Profiad Cancer yng Ngogledd Iwerddon, gan rannu ei stori i gefnogi eraill.

Eiriolwyr Cancer

Mae The Rainbow Project yn rhan o'n rhaglen Eiriolwyr Cancer – cyfres o brosiectau a arweinir gan y gymuned sydd bellach yn fyw, ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r prosiectau'n cael eu harwain gan ein partneriaid cymunedol, pob un ohonynt yn sefydliadau sy'n adnabyddus ac yn ymddiried yn fawr yn y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mae'r cymunedau'n amrywio o ffermio a physgota i grwpiau ffydd.

Gyda'n gilydd, ein nod yw recriwtio rhwydwaith o wirfoddolwyr cymunedol, Eiriolwyr Cancer, a all gefnogi sgysiau lleol am ganser, lleihau rhwystrau i ofal a chymorth cancer, a rhoi profiadau bywyd pobl â chanser wrth galon pob prosiect. Trwy weithio gyda nhw, ein nod yw dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud yn siŵr bod pawb sydd â chanser, ni waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw, yn gallu cael y wybodaeth, y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnyh nhw.

Dathlu ac ysbrydoli gofal cancer rhagorol

Gwyddom faint o wahaniaeth y mae Gweithwyr Proffesiynol Macmillan yn ei wneud i fywydau pobl sy'n byw gyda chanser.

Yn 2024, rydym yn amcangyfrif bod ein nyrsys Macmillan, gweithwyr cymorth a nyrsys gofal lliniarol wedi cyrraedd tua 700,000 o bobl yn byw gyda chanser wrth iddynt fynd trwy ddiagnosis, triniaeth, gofal dilynol neu ofal diwedd oes. Dyna pam rydym wedi ymrwmo i gynyddu ein cymuned o Weithwyr Proffesiynol Macmillan yn y dyfodol.

Mae ein gweithwyr proffesiynol yn mynd gam ymhellach, ac mae Gwobrau Rhagoriaeth Gweithwyr Proffesiynol Macmillan yn gyfle i dathlu eu cyflawniadau eithriadol.

Mae'r gwobrau'n cydnabod y rhai sydd wedi datblygu dulliau newydd arloesol, wedi gwella cefnogaeth, wedi helpu darparu gofal mwy di-dor a'r arwyr di-glod sydd wrthi bob dydd yn gwneud beth bynnag sydd ei angen. Mae'r gwobrau'n helpu ysbrydoli rhagoriaeth a chodi safonau ar draws y gweithlu cancer.

Ymhlith y rhai yn y rownd derfynol yn 2024 mae:

Anthony Thomas, Nyrs Glinigol Arbenigol Cancer Niwroendocrin Macmillan, GIG Calderdale a Huddersfield.

Mae Anthony wedi arwain ymgyrch ddi-baid i sefydlu gwasanaeth tiwmor niwroendocrin arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol cleifion sydd â'r math prin hwn o ganser sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae ei ymdrechion wedi gwella gofal cleifion, wedi symleiddio diagnosteg, ac wedi codi ymwybyddiaeth o gymhlethdodau tiwmorau niwroendocrin ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

"Dylai pob person â chanser gael mynediad at wasanaeth teg. Fy nod yw rhoi'r gofal y mae ganddynt hawl iddo i bobl â thiwmorau niwroendocrin."

Anthony Thomas



Prosiect Cymorth Cancer Byddar gyda Self Help UK.

Nod y bartneriaeth genedlaethol rhwng Self Help UK a Macmillan yw trawsnewid gofal ar gyfer pobl Fyddar â chanser sy'n aml yn cael trafferth cael mynediad at y cymorth hanfodol sydd ei angen arnynt. Mae'r gwasanaeth arloesol, sy'n cael ei redeg gan aelodau o'r gymuned Fyddar, ar gyfer aelodau'r gymuned Fyddar, yn darparu ystod o gymorth ymarferol ac emosiynol.

"Mae cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Macmillan fel rhan o Brosiect Cefnogi Cancer y Byddar yn wir yn gyflawniad rhyfeddol. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd creu gwasanaethau arbenigol, hygyrch i unigolion byddar sy'n delio â chanser—sy'n aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cyfathrebu a chymorth gofal iechyd."

**Claire Adshead,
Rheolwr Cymorth Cancer y Byddar**



Tîm Taith Cancer Dwyrain Swydd Dunbarton, Ymddiriedolaeth GIG Glasgow Fwyaf a Clyde.

Mae Tîm Gwella Taith Cancer Macmillan Dwyrain Swydd Dunbarton wedi arloesi gyda gwasanaeth cyntaf o'i fath yng ngharchar Low Moss, lle mae ymarferwyr lles cancer yn darparu cymorth hanfodol i garcharorion yr effeithir arnynt gan ganser.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi carcharorion a'u teuluoedd, gan weithio i chwalu rhwystrau, lleihau stigma, a sicrhau mynediad teg at ofal cancer tosturiol.

"Rydym yn rhoi amser i garcharorion siarad yn onest am eu hofnau a'u pryderon, ac mae pob cyfarfod yn agor cymaint o lwybrau ar gyfer sgwrsio. Maen nhw mewn cyfnod bregus iawn yn eu bywyd, ac rydyn ni'n rhoi gwybod iddyn nhw nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain."

**Connie Williamson,
Rheolwr Rhaglen ICJ Macmillan**



Buddsoddi mewn arloesi i drawsnewid gofal canser ar gyfer y dyfodol

Gall ariannu'r newydd a chefnogi'r 'heb ei wneud o'r blaen' arwain at welliannau ar draws gofal canser, gan ein helpu yn ein cenhadaeth i gyrraedd pawb â chanser.

Mae buddsoddi cymdeithasol yn Macmillan yn golygu ein bod yn darparu cymorth ariannol ymlaen llaw i brosiectau sydd â'r potensial i wella'r system gofal iechyd ehangach a sicrhau bod pobl â chanser yn cael gwell gofal. Unwaith y bydd y prosiectau wedi'u cyflawni, mae Macmillan yn derbyn yr arian yn ôl fel y gellir ei ail-fuddsoddi mewn mannau eraill i helpu hyd yn oed mwy o bobl â chanser.

I rai pobl â chanser, y peth sydd bwysicaf yw gallu marw ag urddas a pharch, yn y lleoliad o'u dewis. Dyna pam y buom yn 2024 yn parhau i harneisio pŵer buddsoddiad cymdeithasol i helpu trawsnewid gwasanaethau gofal diwedd oes ledled y Deyrnas Unedig, gan weithio mewn partneriaeth â menter ddielw Social Finance.

Roedd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Tîm Ardal newydd a lansiwyd ym mis Mai drwy Hosbis Sant Luc yn Essex a Gwasanaeth Cynllunio a Chymorth Diwedd Oes Harrogate (HELPSS) a lansiwyd ym mis Awst. Bydd mwy o brosiectau'n cael eu lansio ledled y Deyrnas Unedig yn y dyfodol, gan gynnwys ein buddsoddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Ar draws pob buddsoddiad, mae cleifion a'u gofalwyr yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyd-ddylunio'r gwasanaethau ac yn parhau i fod wrth law i helpu rhoi cyngor ar welliannau i'r gwasanaethau a ddarperir. Ac ar draws pob buddsoddiad, rydym yn parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys materion fel ethnigrwydd, anabledd a natur wledig er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rydym wedi cefnogi mwy na 5,000 o bobl ar ddiwedd eu hoes gyda gwasanaethau newydd rhwng Ionawr 2022 a Rhagfyr 2024.

Rydym yn bwriadu buddsoddi cyfanswm o £36 miliwn mewn gwasanaethau Gofal Diwedd Oes, gyda £12.7 miliwn wedi'i wario hyd yn hyn.



Craig, a'i Nain Liz, a gefnogwyd gan y Gwasanaeth Ymateb Gofal Lliniarol (PCRS).

“Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gwasanaeth Ymateb Gofal Lliniarol a'r Llinell Gymorth Gofal Lliniarol am helpu Nain i aros gartref, lle roedd hi eisiau bod. Hi oedd yn rholi pethau ar bob adeg, ac roedd hynny mor bwysig iddi. Roedd cael y tîm gofal wrth law yn golygu y gallem fod yno iddi fel teulu yn hytrach na'i gofalwyr. Nid y byddai wedi gadael i ni wneud unrhyw beth iddi serch hynny. Roedd hi'n annibynnol hyd y diwedd, ac ni fyddai wedi eisiau gwneud pethau mewn unrhyw ffordd arall.”

Ein strategaeth 2025–2030

Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis ac yn byw gyda chanser yn y Deyrnas Unedig yn cynyddu. Mae canser yn troi bywydau wyneb i waered, ac yn anffodus rydym yn gwybod y gall gael ei waethygu dim ond oherwydd pwy ydych chi neu ble rydych chi'n byw. Rydyn ni yma i newid hynny – a bydd ein strategaeth newydd ar gyfer 2025 – 2030 yn ein helpu i wneud hynny.

Drwy ein strategaeth newydd, byddwn yn cael y gofal gorau posibl i bawb heddiw ac yn sbarduno chwyldro mewn gofal canser ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ymrwymo i wneud beth bynnag sydd ei angen i helpu mwy o bobl â chanser gael y gofal gorau sydd gan y Deyrnas Unedig i'w gynnig, pwy bynnag a ble bynnag y bôn't. Ac rydym yn ymrwymo i helpu pawb sy'n byw gyda chanser yn y Deyrnas Unedig i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd, gan drawsnewid gofal canser i bawb a fydd yn cael diagnosis yn y dyfodol hefyd.

Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd gwaith allweddol canlynol dros y pum mlynedd nesaf i'n cadw ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgais:

 Cyrraedd pawb, yn enwedig y rhai sydd ein hangen fwyaf	Mae gormod o bobl yn y Deyrnas Unedig nad ydynt yn cael y gofal canser sydd ei angen arnynt. Yn aml, nhw yw'r rhai sydd ein hangen ni fwyaf. Rhaid i ni newid sut rydym yn cefnogi pobl â chanser, fel y gallwn aros wrth law i bawb, tra'n bod yn rym gwirioneddol er daioni i'r rhai sy'n cael y cyfnodau anoddaf.
 Gwneud gofal canser yn deg i bawb	Ar hyn o bryd, mae gormod o bobl yn cael eu taro'n galetach gan eu diagnosis canser neu'n cael eu gadael ar ôl gan wasanaethau oherwydd pwy ydyn nhw. Mae'r gwahaniaethau rhwng y gofal gorau a'r gofal gwaethaf yn annerbyniol – rhaid i ni newid hyn.
 Cynnig gwell cymorth i bobl sydd â chanser a chyflyrau hirdymor eraill	Mae gan lawer o bobl â chanser anghenion neu broblemau iechyd eraill hefyd. Mae arthritis, gorbryder, colli clyw, diabetes a llawer o gyflyrau eraill yn gwneud gwahaniaeth i sut mae canser yn effeithio arnynt a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Nid yw'r GIG yn ddigon cydgysylltiedig i gynnig gofal mwy personol, felly rhaid i ni fynd ymhellach i ddod i adnabod pob person â chanser a chael y gofal cywir ar eu cyfer. Byddwn yn edrych y tu hwnt i'w diagnosis canser i gyflyrau hirdymor eraill sy'n effeithio ar eu bywydau i gynnig y gofal sydd ei angen arnynt.
 Gwell gofal ym mhobman	Mae gormod o bobl nad ydynt yn cael y driniaeth neu'r cymorth sydd ei angen arnynt oherwydd nad yw ar gael lle maent yn byw, neu dim ond ar gyfer rhai mathau o ganser y mae ar gael. Rhaid i ni weithio gydag eraill i wneud yn siŵr bod pawb ar draws y Deyrnas Unedig yn cael mynediad at yr un lefel o ofal.
 Adeiladu cefnogaeth y cyhoedd	Byddwn yn ysbrydoli ac yn symbylu pobl trwy ein gwaith elusennol i rannu eu hamser, llais ac arian gyda ni i'n helpu i ddarparu gofal a chymorth ar draws y Deyrnas Unedig.
 Gwella sut rydym yn gweithio	Byddwn yn sicrhau bod ein sefydliad wedi'i sefydlu ac yn gweithredu'n effeithlon ac effeithiol i'n helpu i gyflawni ein strategaeth a chael effaith wirioneddol ar fywydau pobl sy'n byw gyda chanser.

Nodyn gan ein Prif Weithredwr

Ni ddylai neb danamcangyfrif maint yr her sy'n wynebu gofal cancer yn y Deyrnas Unedig.

Yn 2024, gwelsom amgylchedd ariannol anodd; adolygiad gan lywodraeth San Steffan a ddaeth i'r casgliad bod y GIG 'wedi torri'; a system gofal cancer sy'n parhau i ymlafnio.

Gwelsom bobl yn aros yn rhy hir am ddiagnosis a thriniaeth. Pobl ar goll mewn system ofal gymhleth nad yw'n diwallu eu hanghenion personol. A gwelsom bobl yn cael eu gadael ar ôl – yn brwydro i gael mynediad at y gofal sydd ei angen arnynt, yn syml oherwydd pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw.

Fel rydym bob amser yn ei wneud, parhaodd Macmillan i ymdrechu'n galed a mynd i'r afael â'r heriau hynny yn uniongyrchol. Yn 2024 roeddem yno i filiynau o bobl yr effeithir arnynt gan ganser, dros y ffôn, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Ac yn 2024, fel yr ydym wedi'i wneud ers dros 100 mlynedd, fe wnaethom barhau â'n hymgyrch diflino i sicrhau "gwelliant" mewn gofal cancer.

Fe wnaethom esblygu unwaith. Fe wnaethom ddatblygu strategaeth newydd feiddgar. Fe'i lluniwyd gan farn a phrofiadau miloedd o bobl sy'n byw gyda chanser, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, partneriaid, cydweithwyr, gwirfoddolwyr ac arbenigwyr eraill.

Gwnaethom rai penderfyniadau anodd. Gweithiom i ganoli'r hyn a wnawn, a sut rydym yn ei wneud, i gael yr effaith fwyaf. Wrth wneud hynny, roeddem yn gallu cyfuno mwy o uchelgais gyda sefyllfa ariannol llawer mwy

sefydlog a fydd yn ein caniatáu i adeiladu ar gyfer y dyfodol.

Bydd 2025 yn gychwyn pennod newydd ddiffiniol yn hanes Macmillan.

Byddwn yn parhau i fod yno i bawb sydd â chanser sydd ein hangen. Ni fydd hynny byth yn newid. Byddwn yn gwneud mwy yn y manau lle mae pobl ein hangen fwyaf – gan ddatblygu offer newydd i helpu canolbwyntio ein gwaith ar y cymunedau sy'n profi'r canlyniadau gwaethaf. Byddwn yn gwneud mwy i ysbrydoli, annog a chefnogi'r arloeswyr a all wneud datblygiadau mawr ym maes gofal cancer.

Byddwn yn helpu gwneud gofal cancer yn deg i bawb, ni waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw – gan weithio gyda phartneriaid cymunedol dibynadwy i helpu i adeiladu ymwybyddiaeth a chefnogaeth cancer. Byddwn yn cyflawni ein hymrwymiad diwyro i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Rydym i gyd yn wahanol, gyda set unigryw o anghenion unigol. Dylai'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn adlewyrchu hyn.

Byddwn yn meiddio dychmygu, yna gweithio i gyflawni byd lle mae pawb ar draws y DU sydd â chanser yn cael y gofal gorau posibl – a ble nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Gemma Peters

Gemma Peters
Prif Weithredwr



Mae Cymorth Cancer Macmillan wedi treulio mwy na 100 mlynedd yn helpu pobl sy'n byw gyda chanser. Gwyddom y gall cancer amharu ar eich bywyd cyfan. A gall gael ei waethygu oherwydd pwy ydych chi a ble rydych chi'n byw. Ond rydyn ni yma i newid hynny. Mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser yn cynyddu, ac mae angen y cymorth gorau ar bob un ohonynt i ddiwallu eu hanghenion unigryw. Dyna pam y byddwn yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pawb sy'n byw gyda chanser ledled y Deyrnas Unedig i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd a thrawsnewid gofal cancer i bawb a fydd yn cael diagnosis yn y dyfodol.

I gyfrannu, gwirfoddoli, codi arian neu ymgyrchu gyda ni,
ffoniwch 0300 1000 200 neu ewch i macmillan.org.uk

Cymorth Cancer Macmillan, elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017), Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Cwmni cyfyngedig trwy warant, wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif cwmni 2400969. Rhif cwmni Ynys Manaw 4694F. Swyddfa gofrestredig: Cymorth Cancer Macmillan, 3rd Floor, Bronze Building, The Forge, 105 Sumner Street, Llundain, SE1 9HZ. Rhif TAW: 668265007
MAC20089_OverviewWelsh

**CYMORTH CANCER
MACMILLAN**